# Canlyniadau Cam 1: Ymatebion Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Ardudwy




# Crynodeb (Ionawr 2022)

## 1. Cyflwyniad

**1.1** Bwriad y prosiect 'Ardal Ni 2035' ydi cynnal sgwrs a thrafod efo cymunedau lleol er mwyn adnabod be sy'n bwysig i drigolion a sut hoffan nhw weld yr ardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.

**1.2** Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 fframwaith adfywio penodol sy'n adlewyrchu dyheadau cymunedau lleol.

**1.3** Fel rhan gyntaf i'r gwaith, cynhaliwyd sgyrsiau cychwynnol gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:

- Beth sy'n dda am yr ardal?
- Beth sydd ddim mor dda am yr ardal?
- Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fyddai'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi?

**1.4** Anfonwyd gwahoddiad, ynghyd a datganiadau ardal (sef llyfrynnau oedd yn crynhoi'r prif ddata economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) i holl Gynghorwyr, Gynghorau Cymuned a'r prif grwpiau lleol.

**1.5** Rhwng Medi a Tachwedd, 2021 cynhaliwyd trafodaeth gyda **15** o Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Bro Ardudwy.

**1.6** Mae trafodaethau cychwynnol hefyd wedi eu cynnal gyda phobl ifanc yr ardal drwy'r gwasanaeth ieuenctid.

## 2. Beth sy'n dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Ardudwy yn nodi oedd yn **dda** am eu hardal:

| Thema | Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb |
|---|---|
| Amgylchedd ac agosatrwydd at atyniadau naturiol e.e. mynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad | 11 |
| Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol | 9 |
| Ardal ddiogel a saff | 8 |
| Rhwydwaith trên y Cambrian | 5 |
| Gweithgareddau cymdeithasol e.e. clybiau chwaraeon, corau | 4 |
| Yr iaith / diwylliant Gymraeg | 4 |
| Mwynderau a chyfleusterau fel siopau, caffis, bwytai | 4 |
| Cyfleoedd a manteision denu twristiaeth / ymwelwyr | 4 |
| Llwybrau a chyfleoedd cerdded a beicio | 3 |
| Cyfleoedd swyddi a hunangyflogaeth | 3 |
| Aer glan / dim llygredd | 3 |
| Darpariaeth Addysg / Ysgol leol | 3 |
| Cynnyrch a busnesau lleol | 2 |
| Treftadaeth a hanes yr ardal | 2 |
| Trafnidiaeth gyhoeddus - rhwydwaith bws | 2 |
| Gweithgareddau a chyfleoedd i bobl ifanc | 1 |
| Tywydd | 1 |
| Gwirfoddolwyr | 1 |
| Mudiadau, elusennau, mentrau a grwpiau gweithredol | 1 |

## 3. Beth sydd ddim mor dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Ardudwy yn nodi oedd **ddim mor dda** am eu hardal:

| Thema | Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb |
|---|---|
| Diffyg swyddi cyflog uchel / llawn amser | 12 |
| Trafnidiaeth gyhoeddus a rhwydwaith bws annigonol | 10 |
| Diffyg tai fforddiadwy i bobl leol | 9 |
| Diffyg darpariaeth a gweithgareddau i bobl ifanc e.e. clwb ieuenctid | 9 |
| Nifer o ail dai a thai haf yn yr ardal | 6 |
| Economi leol – diffyg adnoddau a siopau yn cau | 5 |
| Yr iaith / diwylliant yn colli tir a diffyg cyfleoedd i ddysgwyr | 5 |
| Pryderon am ddarpariaeth iechyd, lles a gofal | 4 |
| Diffyg capasiti ac awch yn lleol i gynnal gweithgareddau a denu pobl i fod yn arwain Cynghorau Cymuned a grwpiau | 4 |
| Sbwriel, blerwch ac edrychiad cyffredinol yr ardal | 4 |
| Prinder tai o safon i'w rhentu | 4 |
| Pryder am addysg e.e. nad oes llawer yn mynd ymlaen i addysg uwch | 4 |
| Dim digon o bwyntiau gwefru ceir | 3 |
| Pryderon am gyflwr ffyrdd a thraffig | 2 |
| Pellter daearyddol o bob man | 2 |
| Dim digon o ddarpariaeth / buddsoddiad i gyfleusterau celfyddydol a hamdden | 2 |
| Diffyg gofal plant yn yr ardal | 2 |
| Diffyg cyfleusterau fel toiledau cyhoeddus | 2 |
| Diffyg gweithgareddau / clwb i bobl hŷn | 2 |
| Pryder am brisiau bwyd a thanwydd | 1 |
| Camddefnyddio cyffuriau ac alcohol | 1 |
| Problemau yn ymwneud a pharcio | 1 |
| Mynediad gwael i'r harbwr | 1 |

## 4. Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fyddai'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi? (adnabod hyd at 3 newid)

Dyma'r prif newidiadau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Ardudwy am eu gweld yn digwydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf:

| Thema | Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb |
|---|---|
| Sicrhau gwaith a swyddi gwerth uchel e.e. drwy agor Maes awyr Llanbedr | 9 |
| Trafnidiaeth gyhoeddus – hygyrch, integredig ac addas i anghenion lleol | 7 |
| Mwy o anogaeth a gweithgareddau fel bod yr iaith / diwylliant yn ffynnu | 5 |
| Gwell darpariaeth chwaraeon yn yr ardal | 4 |
| Ardal fwy gwyrdd - ynni adnewyddadwy, di-blastig, pwyntiau gwefru | 4 |
| Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol | 3 |
| Gwell llwybrau beics a cherdded | 3 |
| Gwell rhwydwaith ffyrdd | 3 |
| Grwpiau Cymunedol i gyd-weithio yn lleol | 3 |
| Deddfwriaeth er mwyn cael gwell rheolaeth ar dai haf / ail gartrefi | 2 |
| Gwell lleoliadau cymunedol / hwb neu ganolfan | 2 |
| Gwell llety / gwesty gwyliau yn yr ardal | 2 |
| Darpariaeth gofal plant addas yn yr ardal a grwpiau mam a babi | 2 |
| Mwy o amrywiaeth o fusnesau a gweithgarwch economaidd yn yr ardal | 3 |
| Cymunedau glan a thaclus | 2 |
| Mynediad i ddiwylliant a chelfyddydau | 2 |
| Addysg – mae angen darpariaeth Ysgol Gydol Oes | 1 |
| Cymorth i hyrwyddo canolfan Harlech & Ardudwy Hamdden/Leisure | 1 |
| Is-adeiladaeth band eang | 1 |
| Safbwynt gwleidyddol - teimlo bod Plaid Cymru yn anghofio am Dde Meirionnydd | 1 |
| Pryder am wahaniaethu o safbwynt iaith (dim croeso i rai di-Gymraeg) | 1 |
| Cyfleusterau Parcio | 1 |
| Gwelliannau i'r Harbwr | 1 |
| Defnyddio'r coleg / theatr fel hwb ar gyfer mudiadau a grwpiau lleol | 1 |

## 5. Cwestiynau ychwanegol

### 5.1 Pwy yw'r prif sefydliadau a grwpiau fyddai'n gallu dod at ei gilydd i gyflawni'r newid sydd eu hangen?

Dyma restr o'r holl sefydliadau a grwpiau oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma ym Mro Ardudwy:

- Cyngor Gwynedd
- Llywodraeth San Steffan
- Harlech & Ardudwy Hamdden/Leisure
- Friends of Wern Mynach.
- Arglwydd Harlech
- Ysgolion / Colegau
- Neuadd Bentref Dyffryn Ardudwy
- Byddai'r ardal yn elwa o fenter fel y Dref Werdd neu Antur Stiniog
- Siambr Fasnach
- Canolfan Gymunedol
- Bwrdd Iechyd
- Cynghorau Cymuned / Tref
- Llywodraeth Cymru
- Sector Preifat
- Ymddiriedolaeth Gymunedol Abermaw
- Barmouth Oasis Community Group
- Byw'n Iach
- Clwb Rygbi Harlech
- Clwb Golff Harlech
- Arloesi Gwynedd Wledig
- Theatr y Ddraig
- Parc Cenedlaethol Eryri

### 5.2 Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw waith ymgynghori lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn ddiwethaf?

Dyma restr o'r gwaith ymgynghori oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma ym Mro Ardudwy:

- Holiadur Barmouth Oasis Community Group. Er mwyn sefydlu'r anghenion penodol y gymuned, cynhaliwyd Arolwg Cymunedol. Edrychodd yr Arolwg ar natur Abermaw fel cymuned, y gwasanaethau cyfredol sydd ar gael a beth oedd barn pobl am y gwasanaethau hyn, yn enwedig anghenion trafnidiaeth, a gofynnodd pa gyfleusterau a gwasanaethau yr hoffai pobl eu gweld yn yr ardal. Mae'r grŵp wedi darparu copi o'r adroddiad i ni, ac y crynodeb yn dangos mai blaenoriaethau oedd cael hwb cymunedol ganolog, sesiynau galw mewn i oedolion unig, clybiau cymdeithasol, grwpiau trafod, grwpiau gweithgareddau, mynediad i gyfrifiaduron, hwb i gynnal achlysuron fel priodas a gyfleusterau i'r digartref.
- Ymgynghoriad ail gartrefi
- Ymgynghoriad pwyntiau gwefru
- Ymgynghoriad cartrefi modur
- Ymgynghoriad maes parcio
- Ymgynghoriad cyfyngiadau parcio